# PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 21 Chwefror 2013 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Meirick Davies, Richard Davies, Huw Hilditch-Roberts, Colin Hughes (Cadeirydd), Geraint Lloyd-Williams, Arwel Roberts (Is-Gadeirydd) a/ac Gareth Sandilands

**Sylwedyddion:** Y Cynghorydd Gwyneth Kensler a/ac Y Cynghorydd Win Mullen-James

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM); Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg (JW); Pennaeth Archwiliad Mewnol (IB); Rheolwr Gwelliant Corfforaethol (TW); Swyddog Gwelliant Corfforaethol (NK & EM); Rheolwr Adran:Gwasanaethau Fflyd Cerbydau (GT); Cydlynydd Archwilio (RE), a/ac Gweinyddwr Pwyllgor (KEJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Ian Armstrong a Peter Owen.

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chodwyd unrhyw fuddiannau personol neu ragfarnus.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2013.

***PENDERFYNWYD** derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2013 fel cofnod cywir.*

## 5 SAFONAU PERFFORMIAD A DDATGELWYD TRWY'R BROSES GWYNION

Cyflwynodd y Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn cyflwyno dadansoddiad o'r adborth a dderbyniwyd trwy bolisi adborth cwsmeriaid Sir Ddinbych 'Eich Llais' ar gyfer Chwarter 3 2012/13. Amlygwyd –

- Bod y Cyngor wedi ymateb i 89% (160/179) o gwynion o fewn yr amserlen o gymharu â tharged o 95%, a oedd yn welliant o 4% ar chwarter blaenorol 2

- Derbyniwyd 210 o gwynion yn ystod chwarter 3 ac roedd dadansoddiad yn ymwneud â gwasanaethau unigol wedi ei roddi dros y flwyddyn hon, a
- Chynhwyswyd yn yr adroddiad berfformiad manwl yn ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol ar gyfer y flwyddyn hon o ran amserau ymateb i'r nifer o gwynion a dderbyniwyd.

Gyda golwg ar wella perfformiad ymhellach, roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid wedi cysylltu â Phenaethiaid Gwasanaeth yn gofyn am dalu sylw i sut caiff cwynion eu trin. Ymhelaethodd y Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg ar berfformiad gwasanaethau unigol gan ddweud bod y Pennaeth Gwasanaeth newydd yn delio â'r gostyngiad mewn perfformiad a welwyd yn achos Priffyrdd a Seilwaith, a bod perfformiad wedi gwella ers mis Ionawr.

Ystyriodd y pwyllgor eu gofynion adrodd at y dyfodol er mwyn darparu data mwy ystyrlon i'w graffu, ac adnabod meysydd gwella i gyflwyno'r gwasanaethau gorau posibl i gwsmeriaid. Nodwyd bod data cyfredol yn canolbwyntio ar nifer y cwynion ac awgrymodd y Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg y dylai adroddiadau yn y dyfodol ganolbwyntio ar natur y cwynion ac adnabod tueddiadau a phatrymau, ac a yw'r gwasanaethau yn delio â'r materion hynny er mwyn gwella gwasanaethau. Yn groes i'r nod yn y Cynllun Corfforaethol i leihau nifer y cwynion, teimlai'r Pennaeth y dylid annog cwynion a'u trin er mwyn cael gwelliannau. Roedd yn gobeithio newid y syniad bod cwynion yn adlewyrchu'n wael ar y gwasanaethau a'u amharodrwydd i gofnodi cwynion yn briodol er mwyn sicrhau eu bod yn eu trin yn effeithiol. Cytunodd yr aelodau gyda'r agwedd honno a chyfeirio at yr anawsterau wrth adnabod y rhesymau y tu ôl i'r amrywiadau yn y nifer o gwynion a dderbynnir a pha mor dda yr oedd gwasanaethau yn perfformio heb y dadansoddiad hwnnw.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafododd yr aelodau y materion canlynol –

- Holwyd ynglŷn â lefel yr amddiffyniad ac anhysbysrwydd a roddwyd i achwynwyr a dywedodd y Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg, tra bod cwynion yn erbyn staff yn cael eu trin ar wahân trwy'r adran Bersonél, ei bod yn annhebygol y byddai cwynion cwsmeriaid yn cael eu cuddio, a bod angen newid agwedd tuag at gwynion er mwyn gweld cwyn fel dull cadarnhaol o gael gwelliannau
- Mewn ymateb i bryderon ynglŷn â pherfformiad gwael y Gwasanaethau Cymdeithasol, hysbyswyd yr aelodau bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol Moderneiddo a Lles yn delio â'r mater gyda golwg ar wella perfformiad. Cydnabu'r Aelodau y cwynion anodd a chymhleth yn y maes hwn a chadarnhaodd y Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg bod y cwynion hyn, oherwydd hynny, yn dod dan feini prawf gwahanol. Ychwanegodd bod ffigurau canrannol weithiau yn gwyro canlyniadau pan roeddynt yn seiliedig ar nifer llai o gwynion
- Cadarnhaodd y Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg bod trafodaeth barhaus ynglŷn ag a oedd rhai cwynion mewn gwirionedd yn geisiadau i'r gwasanaeth gan gydnabod nad oedd rhai cwynion efallai yn cael eu cofnodi yn iawn oherwydd y syniad y byddant yn adlewyrchu'r wael ar y gwasanaeth. Dylid cydnabod bod rhai gwasanaethau yn denu mwy o gwynion oherwydd natur y gwasanaeth a ddarperid.

- Roedd yr aelodau'n falch o nodi'r nifer o ganmoliaethau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn a thra na fedrai'r Pennaeth roddi manylion y tu cefn i'r ffigurau, dywedodd y gellid cynhyrchu canmoliaeth trwy ddelio'n rhagweithiol â chwynion.
- Mynegodd y Cadeirydd bryderon ynglŷn â'r cynnydd parhaol mewn cwynion a dderbyniwyd gan Wasanaethau'r Amgylchedd dros y tair blynedd ddiwethaf ac roedd yn siomedig na ellid rhoir rhesymau am hyn ar hyn o bryd. Awgrymodd y dylai'r maes gwasanaeth hwn fod ymhlith y rhai cyntaf i gael eu dadansoddi. Cadarnhaodd y Pennaeth y byddai dadansoddiad yn adnabod unrhyw dueddiadau, ac y byddai camau'n cael eu cymryd i ddelio ag unrhyw broblemau a ganfuwyd. Ychwanegodd bod angen ystyried nifer y cwynion yng nghyd-destun cyflwyniad gwasanaeth nad oedd yn cael ei ystyried yn uchel ar gyfer y maes gwasanaeth penodol.

Wrth ystyried y ffordd ymlaen, cyfeiriodd y Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg at Weithdy'r Aelodau ar 5 Mawrth mewn perthynas â'r agwedd tuag at ddarparu gwasanaethau cwsmeriaid rhagorol. Dywedodd bod gwaith yn mynd rhagddo gyda'r gwasanaethau i ganfod mecanweithiau i annog adborth cwsmeriaid er mwyn llunio gwasanaethau i ddiwallu gofynion cwsmeriaid. Trafododd y pwyllgor haeddiannau sefydlu Gweithgor i graffu ar ddata a gasglwyd trwy gwynion ac adborth cwsmeriaid a chytunwyd ystyried y mater ymhellach ar ôl y trafodaethau yn y gweithdy.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr angen i gael cynrychiolydd craffu ar Grwpiau Herio Perfformiad gwasanaeth 'Cwsmeriaid' a 'Chyfreithiol a Democrataidd' a gofynnodd am fynegiant o ddiddordeb yn hyn o beth. Ychwanegodd y Cydgysylltdd Craffu y byddai cynrychiolwyr craffu ar Grwpiau Herio Gwasanaeth yn y sefyllfa orau i gysylltu â Phenaethiaid Gwasanaeth perthnasol mewn perthynas â phryderon ynglŷn â pherfformiad gwasanaethau unigol.

***PENDERFYNWYD*** –

*(a) yn amodol ar sylwadau'r aelodau, uchod, derbyn yr adroddiad a chydnabod perfformiad y gwasanaethau;*

*(b) canolbwyntio adroddiadau yn y dyfodol ar ddadansoddi natur cwynion ac adnabod tueddiadau a phatrymau ac a yw'r gwasanaethau yn delio â'r materion hynny er mwyn gwella gwasanaethau i gwwsmeriaid, a*

*(c) penodi'r Cynghorwyr Richard Davies a Colin Hughes fel cynrychiolwyr y pwyllgor ar Grwpiau Herio Perfformiad Gwasanaeth 'Cwsmeriaid' a 'Chyfreithiol a Democrataidd' yn eu tro.*

## 6 AROLWG COFRESTR RISG GORFFORAETHOL, CHWEFROR 2013

[Cynhaliwyd sesiwn briffio cyn y cyfarfod ar gyfer aelodau'r pwyllgor ar Reoli Risg er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith craffu ar yr eitem hon]

Cyflwynodd y Rheolwr Gwelliannau Corfforaethol adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn cyflwyno fersiwn diweddaraf y Gofrestr Risg Gorfforaethol, a oedd

yn manylu'r risgiau mawr sy'n wynebu'r Cyngor ar hyn bryd, ynghyd â chamau i ddelio â'r risgiau hynny. Fel cefndir, roedd yr adroddiad yn manylu'r broses ar gyfer adlygu'r Gofrestr a rôl y Pwyllgor Craffu Perfformiad yn monitro cynnydd. Cyfeiriwyd hefyd at rôl Archwilio Mewnol yn rhoi sicrhad annibynnol ar fesurau lliniaru a rheoli risg.

Ymhelaethodd y Rheolwr Gwelliannau Corfforaethol a'r Swyddog Gwelliannau Corfforaethol ar y prif newidiadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a grybwyllwyd yn yr adroddiad, gan esbonio materion ac ymateb i gwestiynau'r aelodau ar risgiau penodol, fel a ganlyn –

- **DCC005** '*Y risg bod yr amser a'r ymdrech a fuddsoddir mewn prosiectau cydweithredu mawrion yn anghymesur â'r manteision a wireddir'*– esboniwyd bod y risg wedi ei dileu oherwydd roedd y prosiectau bron wedi eu cwblhau ac roedd gwaith rheoli prosiect wedi ei gryfhau. Y ddau brif brosiect cydweithredu dan sylw oedd y Prosiect Gwastraff Rhanbarthol a'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwelliannau Ysgolion Rhanbarthol. Byddai'r ddau brosiect yn cael eu cynnwys ar eu Cofrestri Risg Gwasanaeth perthnasol
- **DCC006** '*Y risg bod yr amgylchedd economaidd yn gwaethygu y tu hwnt i ddisgwyliadau presennol, gan arwain at alw pellach ar wasanaethau a llai o incwm'* – mynegodd y Cynghorydd Colin Hughes beth pryder ynglŷn ag israddio'r risg hwn oherwydd bod y cymhorthdal gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Budd-dal y Dreth Gyngor ond wedi ei warantu am flwyddyn gyda'r tebygolrwydd y byddai'r risg yn cynyddu. Cadarnhaodd swyddogion bod yr hinsawdd ariannol yn newid trwy'r amser a'i bod yn aros yn risg bwysig a fyddai'n cael ei hadolygu'n barhaus
- **DCC007** *'Y risg bod gwybodaeth hollbwysig neu gyfrinachol yn cael ei cholli neu ei datgelu'* – holodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler a oedd aelodau etholedig â'r rhagofalon priodol i ddibenion prosesu gwybodaeth bersonol dan y Ddeddf Diogelu Data. Cytunwyd bod y Cydgysylltydd Craffu yn holi ynglŷn â hyn ac adrodd yn ôl
- **DCC013** '*Risg atebolrwydd ariannol arwyddocaol a risg i enw da yn deillio o reoli cyfundrefn Hyd Braich'* – nodwyd absenoldeb Aelod Arweiniol a ddyrannwyd ar gyfer y risg hon a chadarnhaodd y swyddogion mai amryfusedd oedd hyn, gan ddweud y byddai'r Cynghorydd Huw Jones, Aelod Arweiniol Twristiaeth, Hamdden ac Ieuenctid mwy na thebyg yn cael ei ddyrannu i'r risg honno.
- **DCC017** '*Risg bod effaith diwygiadau lles yn fwy arwyddocaol na'r hyn a ragwelir'* – Holodd y Cynghorydd Meirick Davies os oedd DCC017 yn bodloni diffiniad risg o fewn meini prawf y Cyngor. Cytunodd y Rheolwr Gwelliannau Corfforaethol nad oedd y risg hon yn syrthio'n llwyr o fewn y diffiniad ond ei fod yn fater o bwysigrwydd arwyddocaol ac roedd y Tîm Gweithredol Corfforaethol wedi gofyn am ei chynnwys ynghyd â DCC018 *'Y risg nad yw prosiectau newid / moderneiddio yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd, gan lesteirio sylweddoli manteision.'*

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ei gyfarfod yn ddiweddar gyda Mr Gwilym Bury o Swyddfa Archwilio Cymru a chyfeiriodd at y Llythyr Asesu Gwelliannau cadarnhaol a gyflwynwyd. Roedd un o'r ddau gynnig ar gyfer gwelliannau yn amlygu'r angen i

gynnwys mwy o wybodaeth ar statws a chanlyniadau prosiectau cydweithredu'r Cyngor a mynegwyd pryder ynglŷn â diffyg methodoleg ar gyfer llywodraethu corfforaethol prosiectau o'r fath. O ganlyniad, holodd y Cadeirydd a ddylid ystyried yr agwedd hon yn risg, yn gysylltiedig â **DCC015** '*Y risg na fedr y cyngor ddylanwadu ar yr agenda gydweithredu, a bod cydweithredu pellach yn cael ei orfodi arnom yn hytrach na'n cael ei wneud yn wirfoddol'.* Adroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol ar y fframwaith a'r prosesau i'w mabwysiadu cyn cydweithredu er mwyn lliniaru materion llywodraethu, a ellir hefyd eu cynnwys mewn cynlluniau gwasanaeth ar sail unigol. Cytunodd godi'r mater gyda'r Tîm Gweithredol Corfforaethol, i drafod a ddylid ei adlewyrchu fel risg gorfforaethol. Cyfeiriwyd hefyd at adolygiad o'r cynnydd gyda'r Cytundeb ac annog cydweithredu, a fyddai'n cael ei adrodd yn ôl i'r aelodau. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol bod y fframwaith wedi ei gyflwyno ar ôl y prosiectau cydweithredu cynharach ac y byddai Archwilio Mewnol yn adolygu prosiectau diweddarach i weld os oeddynt yn glynu at y canllawiau. Ychwanegodd y Rheolwr Gwelliannau Corfforaethol, os ystyrid bod llywodraethu mewn cysylltiad â chydweithredu yn wan, y byddai felly'n fater i'w drin yn hytrach na chael cyfeiriad ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y pwyllgor –*

*(a)* *yn cydnabod dileu ac ychwanegu eitemau a newidiadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, a*

*(b)* *yn amodol ar esboniad ar y mater llywodraethu a godwyd ynglŷn â chydweithredu, yn cadarnhau bod y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cynnwys yr holl risgiau mawrion sy'n wynebu'r Cyngor ar hyn o bryd a bod y camau a nodwyd yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn briodol i ddelio â'r risgiau a adnabuwyd.*

Ar y pwynt hwn (11.10 a.m.) torrodd y cyfarfod er mwyn cael egwyl luniaeth.

**7 CYNLLUN CORFFORAETHOL 2012 – 17 – ADRODDIAD GWAELODLIN**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwelliannau Corfforaethol adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r aelodau ystyried adroddiad gwaelodlin drafft ar gyfer y Cynllun Corfforaethol 2012 – 17 gan gynnwys mesurau i'w defnyddio i fonitro cyflwyniad y Cynllun a'r sefyllfa waelodlin ar 1 Ebrill 2012.

Wrth arwain yr aelodau trwy'r adroddiad, rhoddodd y Rheolwr Gwelliannau Corfforaethol wybodaeth gefndir ar y broses o reoli perfformiad ac adrodd ar y gwaith a wnaed hyd yma yn diffinio blaenoriaethau corfforaethol a phenderfynu pa ddangosyddion a mesurau perfformiad i'w defnyddio. [Roedd y blaenoriaethau yn ymwneud â 'Datblygu'r Economi Lleol' a 'Moderneiddio'r Cyngor' yn cael eu datblygu ar hyn o bryd a byddant yn ymddangos yn yr adroddiad perfformiad nesaf.] Ymgymerid â chymhariaeth o'r adroddiadau perfformiad o gymharu â'r waelodlin er mwyn gwerthuso cynnydd o ran cyflawni canlyniadau yn y Cynllun Corfforaethol. Roedd esboniad o strategaeth y Cyngor i bennu "trothwy rhagoriaeth" ac "ymyraethau" ar gyfer pob dangosydd a mesur perfformiad er mwyn rhoi perfformiad yn ei gyd-destun.

Cydnabu'r Aelodau yr anawsterau o ran penderfynu pa ddangosyddion a mesurau perfformiad y dylid eu defnyddio, yn enwedig lle na ellid meincnodi mesurau perfformiad yn erbyn cynghorau eraill yng Nghymru. Roeddynt hefyd yn derbyn y rhesymeg i ddefnyddio dangosyddion perthnasol yn unig ac i ddefnyddio gwahanol grwpiau meincnodi pe tybid nad Cymru oedd y cymharydd mwyaf priodol ar gyfer dangosydd neu fesur perfformiad penodol er mwyn darparu data ystyrlon. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Gwyneth Kensler, cadarnhaodd y Rheolwr Gwelliannau Corfforaethol bod y Cyngor wedi ymateb i'r ymgynghoriad blynyddol ar y setiau dangosyddion cenedlaethol o ran perthnasedd a defnyddioldeb ond dim ond mân newidiadau a wnaed i'r dangosyddion o ganlyniad.

Mewn ymateb i gwestiynau, ymhelaethodd y Rheolwr Gwelliannau Corfforaethol a'r Swyddog Gwelliannau Corfforaethol ar rai o'r enghreifftiau a feincnodwyd a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad, gan nodi bod yr amrywiadau yn adlewyrchu'r newidiadau yn sefyllfa'r Cyngor o gymharu ag awdurdodau eraill Cymru dros flynyddoedd blaenorol. Sefyllfa ddiofyn y Cyngor oedd bod dod yn y chwarter uchaf o gynghorau yng Nghymru yn "rhagorol" a bod dod yn yr hanner gwaelod yn mynd yn "flaenoriaeth i wella" a bod statws wedi cael cod lliw yn unol â hynny yn yr adroddiad er hwylustod cyfeirio. Ychwangodd y Swyddog Gwelliannau Corfforaethol y byddai trefn newydd awdurdodau Cymru ar gael ym mis Awst a fyddai'n galluogi i'r Cyngor ailasesu ei sefyllfa bryd hynny.

Holodd y Cynghorydd Arwel Roberts ynglŷn â'r ymchwil a oedd yn cael ei wneud gan Brifysgol Glyndŵr ar y dangosyddion i'w defnyddio ar gyfer y flaenoriaeth i sicrhau bod tai o ansawdd da ar gael. Dywedodd y Rheolwr Gwelliannau Corfforaethol bod y Cyngor wedi bod yn gweithio gyda'r Brifysgol i ddatblygu setiau data er mwyn darparu'r dangosddion angenrheidiol. Y bwriad oedd darparu mesur o'r cyflenwad presennol o dai cymdeithasol, tai fforddiadwy a thai ar y farchnad ynghyd â mesur o'r angen am dai a galw cronedig. Crybwyllodd y Cadeirydd y gwaith yr oedd y brifysgol yn ei wneud yn ei ward ef lle'r oedd crynodiad uchel o dai cymdeithasol, yn ystyried cyfleusterau cymunedol, mannau agored, maint gerddi, ac adroddodd ar gyfarfodydd y byddai'n ei fynychu ar 4 Mawrth.

Ystyriodd y pwyllgor drefniadau adrodd at y dyfodol a chytuno sefydlu Is-grŵp Rheoli Perfformiad y Cynllun Corfforaethol i ystyried adroddiadau perfformiad yn fanwl cyn y prif gyfarfod pwyllgor. Cytunodd yr aelodau hefyd y dylid trefnu sesiwn briffio cyn y cyfarfod, cyn eu cyfarfod nesaf ar 11 Ebrill ar y fframwaith rheoli perfformiad a throthwyon dangosyddion.

***PENDERFYNWYD*** –

*(a)* *derbyn a chydnabod yr adroddiad gwaelodlin drafft ar gyfer y Cynllun Corfforaethol 2012-17;*

*(b)* *sefydlu Is-grŵp Rheoli Perfformiad y Cynllun Corfforaethol yn cynnwys y Cynghorwyr Colin Hughes, Arwel Roberts a Gareth Sandilands i ystyried adroddiadau perfformiad chwarterol yn fanwl cyn prif gyfarfod y pwyllgor, a*

(c) *threfnu sesiwn briffio cyn y cyfarfod, cyn cyfarfod nesaf y pwyllgor ar 11 Ebrill ar y fframwaith rheoli perfformiad a'r trothwyon dangosyddion.*

## 8 PROSIECT PEILOT DYFAIS CYFYNGU CYFLYMDER A CHFYRIF CYLCHDROADAU

Cyflwynodd Rheolwr y Fflyd adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn am gefnogaeth yr aelodau mewn egwyddor i weithredu prosiect peilot i ystyried ymarferoldeb gosod dyfeisiau cyfyngu cyflymder / cyfrif cylchdroadau i gerbydau'r Cyngor islaw 3.5 tunnell. Roedd enghreifftiau o gyfundrefnau a oedd wedi gweld gwelliannau arwyddocaol mewn arbed ynni o ddefnyddio dyfeisiau o'r fath ynghlwm wrth yr adroddiad (Atodiad 1)

Hysbyswyd yr aelodau bod y systemau rheoli tanwydd a chardiau tanwydd newydd wedi galluogi dadansoddiad o fanteision mentrau newydd yn ymwneud â defnyddio tanwydd. O ganlyniad, cynigiwyd prosiect peilot yn cynnwys dyfais ym mhob cerbyd i reoli'r cyflymder uchaf a pha mor gyflym y gallai'r injan gylchdroi er mwyn lleihau defnydd tanwydd, cost ac allyriad carbon.  Byddai'r peilot yn cynnwys croestoriad o gerbydau mewn gwahanol wasanaethau a byddai angen rhaglen hyfforddi i'r gyrwyr hefyd. Roedd cyllid o £3000 am 10 uned wedi ei adnabod i dalu am gost y dyfeisiau am y cyfnod prawf chwe mis.

Croesawodd y pwyllgor y fenter a chefnogi gweithredu cyfnod prawf i asesu manteision defnyddio dyfeisiau o'r fath ond gofynnodd am sicrhad o ran yr effaith a gawsai ar gerbydau a gyrwyr a sut byddai problemau yn cael eu rheoli o ganlyniad. Teimlai'r aelodau hefyd y dylid ystyried cynllunio llwybrau effeithiol er mwyn cael arbedion tanwydd pellach, Mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau'r aelodau, bu i'r Rheolwr Fflyd –

- Esbonio sut byddai'r cyfyngwr cylchdro yn gweithio'n ymarferol i sicrhau nad oedd tanwydd yn cael ei wastraffu a chadarnhaodd y gellid trosglwyddo'r dyfeisiau heb lawer o gost; ni fyddai gwarant y cerbyd yn cael ei effeithio
- Byddai angen rhoi hyfforddiant er mwyn addasu ymddygiad gyrwyr i sicrhau bod y cerbyd yn cael ei yrru'n effeithiol a bod gyrwyr yn ymwybodol o effaith y ddyfais ar eu harferion gyrru
- Byddai'r hyfforddiant yn cael ei ddarparu'n fewnol yn ystod y peilot ac felly byddai'r gost yn isel; pe byddai'r peilot yn llwyddiannus ac yn cael ei gyflwyno ledled yr awdurdod, mae'n debyg y byddai angen darpariaeth hyfforddi allanol.

Yn ystod y drafodaeth, sefydlwyd bod dyfais olrhain ar bob cerbyd Cyngor ond mai cyfrifoldeb y rheolwyr gwasanaeth unigol yw rheoli eu fflydau cludiant eu hunain. Mynegodd yr aelodau bryder nad oedd rheolwyr yn cael eu gweld yn rheoli gwybodaeth ar y fflyd yn effeithiol ac amlygu pwysigrwydd monitro cyflymder cerbydau a chynllunio llwybrau i leihau gwastraffu tanwydd ac amser teithio anghynhyrchiol.

Canmolodd y Cynghorydd Richard Davies yr hyfforddiant a ddarparwyd gan y Rheolwr Fflyd yn ddiweddar a roddodd gipolwg ar waith rheoli'r fflyd. Holodd sut yr oedd trafodaethau rhagarweiniol gyda defnyddwyr penodol wedi mynd a dywedodd

y Rheolwr Fflyd bod pryderon wedi eu mynegi, y dylid eu goresgyn gan yr hyfforddiant. Wrth drafod y camau nesaf, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai'r cynnig mwy na thebyg yn cael ei gyflwyno i'r Uwch Dîm Arwain i'w gymeradwyo. Ystyriodd yr aelodau yr argymhelliad a gofynnodd y Cynghorydd Meirick Davies bod y dyfeisiau a grybwyllwyd yn cael eu eglurhau yn y penderfyniad. O ganlyniad, fe -

***BENDERFYNWYD*** *cefnogi mewn egwyddor brosiect peilot i ystyried ymarferoldeb cyflwyno dyfeisiau cyfyngu cyflymder / cyfyngu cylchdro ym mhob un o gerbydau'r Cyngor dan 3.5 tunnell.*

## 9 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cydgysylltydd Craffu (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r aelodau adolygu rhaglen waith y pwyllgor i'r dyfodol a rhoi diweddariad ar faterion perthnasol. Roedd atodiadau amrywiol hefyd ynghlwm wrth yr adroddiad a oedd angen sylw'r aelodau.

Adroddodd y Cydgysylltydd Craffu ar ddatblygu'r rhaglen waith ddrafft yn manylu mân newidiadau ers ei pharatoi ynghyd â manylion dyddiadau cyfarfod dros dro ar gyfer y deuddeg mis nesaf. Trafododd yr aelodau newidiadau posibl i'r rhaglen waith ac amrwiol eitemau busnes gyda swyddogion ac ar ôl ystyried y materion, bu i'r pwyllgor -

- Gydnabod newid dyddiad cyfarfod y pwyllgor o 23 i 16 Mai
- Derbyn y ddau adroddiad gwybodaeth yn y brîff gwybodaeth yn ymwneud ag Archwiliad, Arfarniad ac Adolygiad Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol 2011-12 a Llythyr Asesu Gwelliannau Swyddfa Archwilio Cymru
- Ailgadarnhau y dylid cynnal sesiwn briffio / hyfforddi cyn cyfarfod mis Ebrill ar faterion rheoli perfformiad
- Cytuno bod adroddiad ar yr Adolygiad o'r Broses Herio Gwasanaeth yn cael ei gyflwyno i gyfarfod Ebrill ynghyd ag adroddiad gwybodaeth ar Hunan-asesu Corfforaethol
- Cytuno bod yr eitem ar Fframwaith Adrodd Blynyddol y Cyngor (Atodiad 2 i'r adroddiad) yn cael ei threfnu ar gyfer Mai, a
- Phenderfynu bod cwmpas yr adroddiad ar Fenter Cefndy a drefnwyd ar gyfer Mai yn cael ei ehangu i gynnwys cyfeiriad yn y dyfodol ac effaith colled bosibl cyllid DWP yn unol â'r adroddiad a drefnwyd ar gyfer y Cabinet ym mis Mehefin.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar y newidiadau a'r cytundebau a grybwyllwyd uchod, cymeradwyo'r flaenraglen waith fel y manylwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad.*

## 10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ymweliad â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fel rhan o Astudiaeth Gwelliannau Swyddfa Archwilio Cymru ar Waith Craffu. Roedd y broses yn cynnwys adolygiad cymheiriaid gydag aelodau a swyddogion yn ymwneud â chyfarfodydd pwyllgor cyngor arall a rhoi adborth. Roedd Pwyllgor Craffu Cartrefi, yr Amgylchedd a Chymunedau Wrecsam wedi trafod cau llyfrgelloedd ac ar wahân i

beidio ag alinio’r adroddiad gyda’u hadolygiad o asedau, cafwyd ei fod yn gweithredu’n dda yn gyffredinol a ddim yn rhy wahanol i Sir Ddinbych. Ychwanegodd y Cydgysylltydd Craffu y byddai ymweliad arall â chyfarfod pwyllgor yr wythnos ganlynol, ac y byddai dirprwyaeth o Gyngor Sir y Fflint hefyd yn ymweld â chyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu Cymunedau Sir Ddinbych, Roedd yr astudiaeth yn digwydd trwy’r holl gynghorau ledled Cymru gydag adroddiad ar y darganfyddiadau yn cael ei gyflwyno i’r SAC yn yr haf.

***PENDERFYNWYD*** *cydnabod yr adroddiad llafar gan y Cadeirydd mewn perthynas â’r ymweliad â Phwyllgor Craffu Cartrefi, yr Amgylchedd a Chymunedau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.20 p.m.